Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# MAE'R FFORDD YR YDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

## ...i denantiaid a landlordiaid

**Eich Pecyn Cymorth**





Mae **“Mae’r Ffordd yr Ydych Chi’n Rhentu yn Newid”** yn ymgyrch gyfathrebu wedi’i chynllunio i gynorthwyo cyflwyniad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sy’n dod i rym yng Nghymru o 1 Rhagfyr 2022*.

Y Ddeddf yw’r newid mwyaf i Gyfraith Tai yng Nghymru ers degawdau a bydd yn effeithio ar un o bob tri yn fras o boblogaeth Cymru sy’n byw mewn cartref rhent ar hyn o bryd, yn ogystal â’r landlordiaid sy’n eu darparu.

Rydym yn awyddus i’r trawsnewidiad i’r rheoliadau newydd o dan gyfraith hon, a’u gweithrediad, fod mor llyfn â phosibl i bawb.



*Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022.

# YR YMGYRCH

**Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth glir i'r holl bobl berthnasol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol ddwyieithog i sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n dod i rym o fis Rhagfyr 2022.**







## Mae'r ymgyrch yn cynnwys:

- Hysbysebu a chyfathrebu digidol
- Hysbysebu a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol
- Ymgyrch TV
- Cyfryngau print
- Ymgyrch radio

Bydd gweithgarwch yn defnyddio'r cyfryngau hyn drwy gydol y flwyddyn yn arwain at weithredu'r ddeddf ym mis Rhagfyr, yn ogystal ag ar ôl i'r ddeddf gael ei gweithredu i atgoffa pobl o'u rhwymedigaethau a'u hawliau.

Mae'r driniaeth greadigol wedi'i dylunio i gynnwys tenantiaid a landlordiaid a chodi eu hymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd i ddod, gan eu cyfeirio i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth.

# EICH CYMORTH

Fel rhanddeiliad allwedd̂ol neu grŵp â buddiant, hoffem eich cymorth i ledaenu negeseuon yr ymgyrch, a helpu eich rhanddeiliaid i ddeall sut y bydd y Ddeddf yn effeithio arnynt, able i gael gafael ar wybodaeth.

Mae’r ‘Pecyn Cymorth i Randdeiliaid’ wedi’i greu i ddarparu’r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac mae’n cynnwys amrywiaeth o asedau, templedi, a chanllawiau ar rannu’r negeseuon.

Byddwn yn diweddaru’r pecyn wrth i wybodaeth ac asedau newydd ddod i’r fei, a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd gwybodaeth newydd yn cael ei hychwanegu.



# RHANNU'R NEGESEUON

**Un o'r ffyrdd hawsaf i chi rannu'r negeseuon a lledaenu'r gair yw trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.**

Gallwch rannu unrhyw asedau neu ddolenni a ddarperir yn y pecyn cymorth â'ch cynulleidfaoedd ar-lein neu eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun, neu drwy rannu'n uniongyrchol y postiadau yr ydym yn eu cyhoeddi ar brif dudalen Facebook Llywodraeth Cymru:

**https://www.facebook.com/llywodraethcymru**

neu ar gyfrif Twitter Cymunedau Llywodraeth Cymru:

**https://twitter.com/WG_Communities**

Os ydych yn postio ar Twitter, tagiwch y cyfrif uchod, a defnyddiwch yr hashnod **#MaeFforddYrYdychChinRhentuYnNewid**

Rydym wedi cynnwys rhai delweddau gellir eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio yn eich postiadau yn y pecyn cymorth ynghyd ag awgrymiadau o gynnwys, a gallwch hefyd rannu dolenni i'r Ffilm Esbonio a'r Ffilm Arwr.

Y ddolen i dudalen yr ymgyrch yw: **https://llyw.cymru/rhentucartrefi** a dyma'r lle cyntaf i fynd am wybodaeth ar gyfer pob ymholiad, cwestiwn, neu bryder ynghylch y Ddeddf a sut y mae'n effeithio arnoch chi a'ch rhanddeiliaid.



# Y PECYN CYMORTH

## Ffilm Esbonio

**Rydym wedi creu ffilm fer sy'n cyflwyno rhai o'r prif bwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf i'ch helpu chi a'ch rhanddeiliaid i ddeall rhai o'r newidiadau a'u heffeithiau.**

**Sut ydw i'n ei defnyddio?**
Gallwch ei rhannu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd ar-lein, gwefannau, sianeli cyfryngau cymdeithasol, sesiynau un i un.

## Storifwrdd y Ffilm Esbonio

**Rydym hefyd wedi creu storifwrdd o'r ffilm fer hon i'r rhai ohonoch a fyddai'n dewis ei gweld fel hyn neu sydd â rhanddeiliaid a allai ei chael yn haws ei gweld.**

**Sut ydw i'n ei ddefnyddio?**
Gallwch ei rannu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, sesiynau un i un, neu drwy'r post/e-bost.

## Ffilm Arwr

**Mae ffilm arwr yn gyflwyniad byr, lefel uchel i'r pwnc sy'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf aml mewn hysbysebion teledu ac wrth hysbysebu ar-lein.**

**Sut ydw i'n ei defnyddio?**
Gallwch ei rhannu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd ar-lein, gwefannau, sianeli cyfryngau cymdeithasol, sesiynau un i un.

## Asedau Cyfryngau Cymdeithasol

**Rydym wedi creu delweddau y gellir eu defnyddio'n ddigidol mewn amrywiaeth o feintiau i chi eu defnyddio i gyd-fynd â'ch negeseuon cyfryngau cymdeithasol.**

**Sut ydw i'n eu defnyddio?**
I'w defnyddio ar draws ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys delweddau sy'n barod i'w defnyddio ar Twitter, Facebook neu Instagram.

## Postiadau Cyfryngau Cymdeithasol

**I gyd-fynd â'r delweddau, rydym wedi ysgrifennu testun sampl ar gyfer postiadau cyfryngau cymdeithasol.**

**Sut ydw i'n eu defnyddio?**
Gallwch ddefnyddio'r cynnwys fel y mae, ei newid i'ch cynulleidfa, neu mae croeso i chi greu eich cynnwys eich hun.

## Canllawiau Rhannu

**Yn ogystal â'r canllawiau sylfaenol uchod, rydym wedi ysgrifennu canllaw manylach ar gyfer unrhyw un a hoffai gael rhagor o wybodaeth am sut i rannu postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.**

## Dolenni Defnyddiol

**Mae dogfen yn y pecyn cymorth sy'n cynnwys yr holl ddolenni defnyddiol y gallai fod angen i chi eu rhannu â'ch rhanddeiliaid.**

**Sut ydw i'n ei defnyddio?**
Gallwch gyfeirio pobl at y dolenni hyn ar-lein, wyneb yn wyneb, neu drwy'r post/e-bost.

## Dogfen Hawdd ei Ddarllen

**Dogfen ddealladwy, hawdd ei ddarllen yw hon sy'n esbonio mewn termau syml effeithiau a chanlyniadau'r ddeddf.**

**Sut ydw i'n ei defnyddio?**
Gallwch ei hargraffu a'i defnyddio wyneb yn wyneb neu drwy'r post; neu gallwch gyfeirio pobl ati ar-lein ar ffurf PDF.

## Delweddau Eraill

**Rydym yn hapus i chi ddefnyddio galwadau'r ymgyrch i weithredu ac elfennau graffig eraill wrth gyfathrebu, ar yr amod nad ydynt yn cael eu hymestyn, eu hystumio na'u newid mewn unrhyw ffordd.**

**Sut ydw i'n eu defnyddio?**
Rydym wedi'u cyflenwi ar ffurf jpeg (ar gefndir gwyn at ddefnydd cyffredinol) a png (ar gefndir tryloyw i'w defnyddio ar-lein).

## Templed Cynnwys Cylchlythyr

**Os oes gan eich sefydliad gylchlythyr rheolaidd, a hoffech gynnwys rhywfaint o wybodaeth am y Ddeddf ynddo, rydym wedi ysgrifennu rhywfaint o destun cylchlythyr enghreifftiol i chi ei ddefnyddio ynghyd â rhai delweddau o'r adran 'Logos a Delweddau Eraill'.**

**Sut ydw i'n ei ddefnyddio?**
Gallwch ddefnyddio'r testun hwn yn eich cylchlythyr ar-lein neu wedi'i argraffu neu yn eich cyfathrebu rheolaidd arall.

# Cynorthwyo pobl sy'n cael trafferth cael mynediad i'r rhyngrwyd

**Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y negeseuon a'r wybodaeth am y newidiadau. Felly, hoffem ofyn am eich cymorth gydag un peth olaf…**

**Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw un y mae'r newid hon i'r gyfraith yn effeithio arno – naill ai fel tenant neu landlord – a allai ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr wybodaeth ar-lein? Os ydych chi, a allech ei gynorthwyo yn un o'r ffyrdd canlynol?**



- A allech chi gael sesiwn un i un gyda nhw lle allwch fewngofnodi i'r wefan a darllen am y newidiadau a'r wybodaeth?
- Ydych chi'n trefnu neu'n cyfrannu at gyfarfod neu grŵp rheolaidd lle gallwch eu cynorthwyo i gael gafael ar yr wybodaeth hon?
- Lle nad oes dewis arall, a allech chi argraffu'r deunyddiau er mwyn iddyn nhw eu darllen? Gan fod yn ymwybodol o'r effaith amgylcheddol y gallai hyn ei chael, wrth gwrs.
- A oes unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch gennym ni i gyfleu'r neges hon i gynifer â phosibl o'ch rhanddeiliaid neu bobl â buddiant?